HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

DATGANIAD O YMRWYMIAD

1. rydym yn cydnabod bod yr Holocost wedi ysgwyd sylfeini gwareiddiad modern. Bydd gan ei nod digynsail a'i arswyd bob amser ystyr fyd-eang

2. credwn y dylai'r Holocost gael lle parhaol yng nghof cyfunol ein cenedl. Anrhydeddwn y goroeswyr sydd gyda ni o hyd, ac ail-gadarnhawn ein nodau o gyd-ddealltwriaeth a chyfiawnder

3. mae'n rhaid i ni sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn deall achosion yr Holocost ac yn ystyried ei ganlyniadau. Rydym yn addunedu i gofio dioddefwyr erledigaeth Natsïaidd a phob hil-laddiad

4. rydym yn gosod gwerth ar aberthau'r rheiny sydd wedi peryglu eu bywydau i amddiffyn neu achub dioddefwyr, fel maen brawf o allu'r ddynolryw i sicrhau daioni yn wyneb anfadrwydd

5. rydym yn cydnabod bod dynoliaeth wedi ei greithio o hyd gan y gred bod hil, crefydd, anabledd neu rywioldeb yn gwneud bywydau rhai pobl yn llai gwerthfawr nag eraill. Mae hil-laddiad, gwrth-Semitiaeth, hiliaeth, senoffobia a chamwahaniaethu yn parhau o hyd. Mae gennym gydgyfrifoldeb i frwydro yn erbyn yr anfadrwydd hwn

6. rydym yn addunedu i gryfhau ein hymdrechion i hyrwyddo addysg ac ymchwil ynghylch yr Holocost a hil-laddiad arall. Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y gwersi sy'n deillio o ddigwyddiadau o'r fath wedi'u dysgu'n llawn

7. byddwn yn parhau i annog coffadwriaeth o'r Holocost drwy gynnal Diwrnod Coffa Holocost y Deyrnas Unedig yn flynyddol. Rydym yn condemnio'r anfadrwydd o ragfarn, camwahaniaethu a hiliaeth. Rydym yn rhoi gwerth ar gymdeithas rydd, oddefgar, a democrataidd